

Cydsynio ar gyfer brechlyn fflw chwistrell trwyn

Dylai rhiant neu warcheidwad sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn lenwi'r ffurflen gydsynio hon gyda beiro. Dychwelwch y ffurflen i ysgol eich plentyn cyn y sesiwn frechu. Treuliwch amser yn darllen yr wybodaeth a ddaeth gyda'r ffurflen hon. Am ragor o wybodaeth am y fflw a'r brechlynnau, ewch i: icc.gig.cymru/brechlynffliw. Am restr lawn o gynhwysion y brechlyn a sgîl-ffeithiau posibl, ewch i: medicines.org.uk/emc (safle allanol, Saesneg yn unig) a rhowch 'Fluenz' yn y blwch chwilio. Os oes gennych gwestiynau, neu os hoffech drafod y brechiad, cysylltwch â nyrs yr ysgol neu'r tîm imiwneiddio.



Sgania fi am ragor o wybodaeth ar y Fflw

Enw llawn y plentyn (enw cyntaf a chyfenw):	Dyddiad Geni:	Ysgol:
Cyfeiriad a chod post cartref:	Rhif cyswllt yn ystod y dydd:	Blwyddyn:
	Enw a chyfeiriad y meddyg teulu:	

Mae'r brechlyn chwistrell trwyn yn cynnwys **gelatin moch**. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yma: icc.gig.cymru/GelatinPorc
Mae **piwiad heb gelatin** y gall eich plentyn ei gael yn lle'r chwistrell trwynol. I drafod hyn, ticiwch yma:

Er mwyn sicrhau bod y brechlyn yn addas i'ch plentyn, atebwch yr holl gwestiynau isod.

Ydy eich plentyn eisoes wedi cael brechlyn fflw yr hydref/gaeaf hwn?	Nac ydy <input type="checkbox"/>	Ydy <input type="checkbox"/>
Oes gan eich plentyn alergeddau sydd wedi gofyn am driniaeth feddygol frys?	Nac oes <input type="checkbox"/>	Oes <input type="checkbox"/>
Oes gan eich plentyn alergedd difrifol i wyau y mae wedi bod angen triniaeth gofal dwys ar ei gyfer?	Nac oes <input type="checkbox"/>	Oes <input type="checkbox"/>
Ydy eich plentyn yn dioddef o gyflwr neu'n cael triniaeth sy'n effeithio'n ddifrifol ar ei system imiwneidd? (er enghraifft, triniaeth ar gyfer lewcemia, neu steroidau dos uchel)?	Nac ydy <input type="checkbox"/>	Ydy <input type="checkbox"/>
Oes rhywun yn eich cartref yn cael triniaeth ar hyn o bryd sy'n effeithio'n ddifrifol ar ei system imiwneidd (er enghraifft, trawsblaniad mêr esgyrn neu gael ei nyrsio mewn amgylchedd amddiffynnol yn yr ysbyty)?	Nac oes <input type="checkbox"/>	Oes <input type="checkbox"/>
Ydy eich plentyn yn derbyn triniaeth aspirin (salisylad)?	Nac ydy <input type="checkbox"/>	Ydy <input type="checkbox"/>
Ydy eich plentyn wedi cael mewnbaniad yn y cochlea neu a yw eich plentyn i fod i gael mewnbaniad yn y cochlea yn ystod yr wythnos cyn cael ei frechlyn fflw neu yn ystod y pythefnos ar ôl cael ei frechlyn fflw?	Nac ydy <input type="checkbox"/>	Ydy <input type="checkbox"/>
Oes gan eich plentyn asthma? (Mae'r brechlyn fflw chwistrell trwyn yn cael ei ffafrio ar gyfer y rhan fwyaf o blant ag asthma.)	Nac oes <input type="checkbox"/>	Oes <input type="checkbox"/>

Os oes gan eich plentyn asthma, atebwch y cwestiynau canlynol.

Ydy eich plentyn erioed wedi cael ei dderbyn i'r uned gofal dwys oherwydd ei asthma?	Nac ydy <input type="checkbox"/>	Ydy <input type="checkbox"/>
Ydy eich plentyn yn cael tabledi steroid rheolaidd ar bresgripsiwn oherwydd ei asthma?	Nac ydy <input type="checkbox"/>	Ydy <input type="checkbox"/>

Ar ddiwrnod y brechiad, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth y nyrs os yw brest eich plentyn yn **wichlyd** (neu wedi bod yn wichlyd yn ystod y tridiau diwethaf); neu os yw wedi gorfod **defnyddio ei anadlydd asthma yn amlach nag arfer**.

Os ateboch chi 'ydy/oes' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, neu os oes cyflyrau meddygol eraill y dylai'r tîm imiwneiddio fod yn ymwybodol ohonynt, rhowch fanylion yn y blwch isod:

<input type="text"/>

Gall pobl ifanc 16 oed a hŷn gydsynio drostynt eu hunain. Mewn rhai achosion, efallai y bydd pobl ifanc o dan 16 oed yn gallu cydsynio eu hunain. Gall hyn ddigwydd os ydyn nhw'n ddigon aeddfed i ddeall yn llawn yr hyn sy'n cael ei gynnig. Mae dal yn well bod rhieni/gwarcheidwaid yn rhan o'r broses gydsynio. **Rydym yn eich annog i siarad â'ch plentyn am y brechiad cyn y sesiwn.** Bydd unrhyw frechiad y mae eich plentyn yn ei dderbyn yn cael ei gofnodi yn system y GIG at ddibenion cadw cofnodion a monitro brechlynnau. I ddarganfod sut mae'r GIG yn defnyddio eich gwybodaeth, ewch 111.wales.nhs.uk/amdanomni/eichgwybodaeth (Safle allanol).

Cydsynio ar gyfer imiwneiddio

<input type="checkbox"/> Ydw. Mae gen i gyfrifoldeb rhiant , ac rwy'n cytuno i'm plentyn (a enwir uchod) gael y brechiad fflw chwistrell trwyn .	<input type="checkbox"/> Nac ydw. Mae gen i gyfrifoldeb rhiant , ac nid wyf yn cytuno i'm plentyn (a enwir uchod) gael y brechiad fflw chwistrell trwyn . Rhowch eich rhesymau yn y blwch sylwadau isod.
---	---

Eich enw (ysgrifennwch mewn priflythrennau):	Perthynas:
Llofnod rhiant neu warcheidwad:	Dyddiad:

Sylwadau (rhieni a'r gwasanaeth iechyd):

<input type="text"/>

Diolch am lenwi'r ffurflen hon. At ddefnydd y gwasanaeth iechyd yn unig y mae'r adran isod.

Dyddiad ac amser	Enw'r brechlyn a'r cynnyrch	Rhif y swp	Dyddiad dod i ben	Enw'r imiwneiddiwr	Llofnod yr imiwneiddiwr
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>